Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Crescent Road
Caerffili
CF83 1WH

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 419 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 296 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 75 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 14.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 11.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 4.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg y Castell yn gymuned gynnes a chroesawgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir i'r ysgol, gyda phwyslais cryf ar feithrin disgyblion annibynnol a hyderus sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hunaniaeth. Cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan dîm ymroddedig o staff a llywodraethwyr sy'n cydweithio'n agos er lles a dysgu'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae staff yn gweithredu trefniadau buddiol er mwyn adnabod a chefnogi'r disgyblion yn amserol. Mae cydweithio agos â theuluoedd ac asiantaethau arbenigol yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu dysgu.

Mae'r staff yn creu amgylchedd lle mae parch, caredigrwydd a chydweithio yn nodweddion amlwg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd ac yn dyfalbarhau wrth wynebu her. Mae bron bob un yn datblygu medrau llafar cadarn. Maent yn cyfrannu at drafodaethau dosbarth yn bwrpasol ac yn sgwrsio â'u cyfeillion yn naturiol yn ystod cyfnodau llai ffurfiol. Mae disgyblion yn mwynhau darllen, ac mae camau diweddar wedi cryfhau eu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg. Mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n gadarn; er hyn, prin yw'r cyfleoedd iddynt ysgrifennu'n estynedig. Mae safonau mathemateg disgyblion yn gryf, ac maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus mewn cyd-destunau dysgu amrywiol. Mae eu medrau digidol yn datblygu'n gyson.

Mae arweinwyr wedi arwain y staff yn fedrus i gynllunio cwricwlwm sydd yn berthnasol ac yn ysgogol i ddisgyblion, gan gynnwys profiadau sy'n cysylltu'r disgyblion â'u hardal leol a'i threftadaeth gyfoethog. Mae dysgu proffesiynol staff yn gryfder amlwg yn yr ysgol, sydd, yn ei dro, yn cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd yr addysgu. Yn yr arferion ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn sicrhau cyflymder bwriadus i'r sesiynau a her addas sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae dulliau holi effeithiol yr staff yn ymestyn dealltwriaeth ac annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynnig adborth amserol a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith. Er hyn, nid yw'r arferion hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant o ymddiriedaeth a chydweithio lle mae staff yn cymryd cyfrifoldeb gweithredol i gryfhau'r ddarpariaeth dros amser.

Mae'r ysgol yn ystyried barn ac awgrymiadau rhieni yn ofalus ac yn rhannu gwybodaeth eglur am gynnydd eu plant trwy gyfathrebu rheolaidd. Mae hyn yn helpu rhieni i ddeall

cryfderau eu plentyn a'r camau nesaf yn eu dysgu, ac yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cysoni'r arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol

A2 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gymraeg y Castell yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol. Mae'r pennaeth yn arweinydd ymroddedig sy'n rhannu ei weledigaeth yn glir i baratoi disgyblion ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu a'r byd ehangach. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r holl staff gan feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a medrus sy'n falch o'u hunaniaeth a'u hiaith. Mae'n cael ei gefnogi gan ddirprwy a staff cydwybodol sy'n creu ymdeimlad o gymuned gytûn. Mae cydweithio cadarn rhwng staff yn nodwedd gref gyda phob un yn barod i rannu eu harfer effeithiol a chefnogi ei gilydd. Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau i staff yn synhwyrol er mwyn diwallu anghenion disgyblion a hyrwyddo gwelliant yn y ddarpariaeth. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan y tîm arwain y medrau a'r wybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Mae'r pennaeth wedi meithrin hinsawdd a diwylliant o ymddiriedaeth er mwyn galluogi staff i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain. Mae trefniadau a dull y staff cyfan tuag at ddysgu proffesiynol ac ymchwil broffesiynol yn ganolog i weithdrefnau'r ysgol. Mae gan bob aelod o staff lais gweithredol yng nghyfeiriad eu taith ddysgu unigol. Mae eu partneriaeth â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd yn golygu bod gan staff gyfrifoldeb am fentora myfyrwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu i gryfhau agwedd gadarnhaol yr holl staff tuag at ddysgu proffesiynol ac maent yn elwa o'r ymchwil ddiweddaraf drwy'r brifysgol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu dysgu yn yr amgylchedd dysgu tu fewn a thu allan o oed cynnar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn cefnogi ei gilydd i oresgyn anawsterau a dyfalbarhau'n effeithiol. Maent yn dangos empathi at ei gilydd yn reddfol o fewn y ddarpariaeth gynhwysol. Maent yn arddangos medrau dysgu annibynnol cryf wrth fynd ati i weithio ar dasgau a phenderfynu ar y dull mwyaf effeithiol o gyflawni eu gwaith.

Yn yr arferion ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn sicrhau cyflymder bwriadus i'r sesiynau dysgu ac mae staff yn gosod her addas sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd da. Maent yn defnyddio dulliau holi effeithiol sydd yn ymestyn dealltwriaeth ac annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu tasgau dysgu difyr a diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan ddarparu cyfleoedd pwrpasol iddynt ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol yn fuddiol. Maent yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig yn amserol gan ddarparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith. Er hyn, nid yw'r arferion hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd gyda'r disgyblion, staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned i ddarparu 'Cwricwlwm y Castell'. Mae athrawon yn cynllunio'r

ddarpariaeth yn ofalus ac mewn dull hyblyg er mwyn cyflwyno cwricwlwm diddorol a pherthnasol i ddisgyblion. Maent yn llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach yn fedrus, er enghraifft wrth gofleidio treftadaeth Castell Caerffili a'i ddylanwad ar eu milltir sgwâr. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i werthuso agweddau penodol o'r cwricwlwm a'i addasu'n fwriadus er mwyn ei gadw'n gyfredol a pharhau i ysgogi diddordeb disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau llafar cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn mynegi eu barn, yn sgwrsio'n naturiol â'i gilydd ac yn cyfrannu at drafodaethau dosbarth yn gynyddol hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Maent yn ddarllenwyr brwdfrydig yn Saesneg gan drafod testun ac awduron yn hyderus. Yn ddiweddar, mae staff wedi rhoi cynlluniau ar waith sy'n dechrau meithrin yr un brwdfrydedd yn y Gymraeg. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol at amrywiaeth o ddibenion. O dan arweiniad gofalus yr athrawon, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig.

Mae athrawon yn cefnogi disgyblion yn llwyddiannus i wneud cynnydd cyson yn eu medrau mathemateg. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemateg ac maent yn eu defnyddio'n hyderus mewn gwersi. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion wedi'u cynllunio'n grefftus gan athrawon, ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus mewn meysydd dysgu amrywiol. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gyson wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn defnyddio offer digidol yn hyderus i gefnogi a chyfoethogi eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu profiadau diddorol i ddisgyblion ddatblygu agweddau cadarnhaol at ymwybyddiaeth ysbrydol ac agweddau moesol, sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain ac eraill. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch at eu hunain a'u cyfoedion, ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn adnabod ac yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol ac yn sicrhau darpariaeth amserol a chynhwysol i'r disgyblion. Trwy gydweithio â rhieni ac asiantaethau allanol, mae staff yn addasu'r ddarpariaeth yn fwriadus i gefnogi lles a datblygiad y disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn defnyddio'r deilliannau dysgu i deilwra'r ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion lles a dysgu yn fedrus.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth drylwyr am gyd-destun cyfredol yr ysgol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod materion strategol ac yn ymweld â staff er mwyn dod i ddeall agweddau penodol o waith yr ysgol yn well. Mae hyn yn arfogi aelodau'r corff i herio a chefnogi arweinwyr yn hynod effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff a'r llywodraethwyr yn defnyddio ystod o ddulliau buddiol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar les a dysgu'r disgyblion. Maent yn cynnwys y staff yn bwrpasol wrth graffu ar waith disgyblion ac wrth ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan arweinwyr a staff ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r prif feysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol er mwyn cynllunio blaenoriaethau gwella yn synhwyrol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ffordd y mae arweinwyr yn gwrando ar farn ac awgrymiadau rhieni ac yn eu hystyried o ddifri wrth wneud penderfyniadau.

### CIPLUN: Ymateb i lais rhieni drwy rannu gwybodaeth fanwl a defnyddiol am gynnydd disgyblion

Mewn ymateb i adborth rhieni sy'n gofyn am wybodaeth bellach am gynnydd eu plant, mae'r ysgol yn rhannu  gwybodaeth berthnasol am ddeilliannau'r disgyblion yn effeithiol trwy adroddiadau interim a blynyddol sy'n hygyrch ac yn hawdd i'w dehongli. Mae athrawon yn trafod cynnydd cyfredol a thros amser y disgyblion gyda'r rhieni ynghyd â'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r cyfathrebu buddiol hwn yn galluogi staff i egluro'r wybodaeth yn eglur a thrafod sut y gall rhieni gefnogi'r dysgu ymhellach. Mae'r adroddiadau yn fanwl gydag athrawon yn cynnwys cysylltiadau i adnoddau defnyddiol fel y gall y teuluoedd eu defnyddio gartref. O ganlyniad, mae gan rieni ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad a chynnydd eu plentyn. Mae hyn wedi arwain at gefnogaeth fwy cyson gartref, cymhelliant gwell ymhlith disgyblion a chynnydd cryfach ymhlith y rhan fwyaf o ddisgyblion dros amser.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  29/04/2026